## COD YMARFER YR AELODAU

## ATODIAD 2 - PROTOCOL AR GYFER DEFNYDDIO OFFER TG CYFARFODYDD HYBRID Y CYNGOR AR GYFER CYFARFODYDD GRWPIAU GWLEIDYDDOL

Mae'r defnydd o offer y Cyngor i hwyluso cyfarfodydd hybrid Grwpiau Gwleidyddol wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau a Moeseg a gan y Cyngor llawn a bydd y meini prawf canlynol yn berthnasol:

Lleoliadau

1. Ystafelloedd Pwyllgor 1, 2 neu 3 yn Neuadd y Sir yw'r unig leoliadau ar hyn o bryd lle mae offer cyfarfod hybrid (y tu allan i oriau) ar gael ar gyfer cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol.

2. Gall lleoliadau eraill ddod ar gael yn y dyfodol fel rhan o broses barhaus y Cyngor o ddatblygu ei gyfleusterau gweithio hybrid.

3. Ni fydd unrhyw offer newydd yn cael ei brynu'n benodol i hwyluso cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol, e.e. i gefnogi cyfarfodydd hybrid.

Argaeledd ac archebu

4. Rhaid i archebion gael eu gwneud gan aelod wedi'i enwebu o flaen llaw gan Arweinydd y Grŵp, 'yr Aelod Arweiniol', drwy'r swyddogion priodol.

5. Ni fydd archebion ar gyfer cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol yn cael blaenoriaeth dros unrhyw archebion a wneir i ddefnyddio Ystafelloedd Pwyllgor 1/2/3 i gyflawni busnes y Cyngor. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae hyn yn golygu y bydd gan gyfarfodydd busnes y Cyngor flaenoriaeth o ran defnyddio ystafelloedd ac offer TG y Cyngor, ac mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os archebwyd ystafell/offer ar gyfer cyfarfod grŵp gwleidyddol yn gyntaf.

6. Dyma'r manylion ar gyfer archebu offer ac ystafelloedd:

    a. Rhaid i'r holl archebion gael eu gwneud gan ddefnyddio'r 'Facilities Management Self Service Form' sydd ar gael ar y ddesg gymorth ar Fewnrwyd y Cyngor:

        - O fewn ystafelloedd pwyllgor 1/2/3, mae sgriniau a thaflunwyr sefydlog.
        - Mae gan Ystafell Bwyllgor 3 sgrin fawr iawn gyda system darllenfa.
        - Rhaid i archebion gynnwys cais i ddefnyddio'r offer cyfarfod hybrid.

b. Dylai amseru a hyd cyfarfodydd gael eu nodi mor gywir â phosibl wrth archeb.

c. Dylid rhoi amcangyfrif o nifer y bobl a fydd yn mynychu wyneb yn wyneb. Dyma gapasiti pob ystafell ar gyfer cyfarfodydd hybrid:

- Ystafell Bwyllgor 1 - 20 o bobl
- Ystafell Bwyllgor 2 - 10 o bobl
- Ystafell Bwyllgor 3 - Hyd at 30 o bobl yn amodol ar gyfyngiadau ar gynllun yr ystafell a gallu'r sain.

d. Dylid nodi’r cynllun a ddymunir ar gyfer yr ystafell wrth archebu.

Cymorth

7. Mae’r adran Cynnal Adeilad yn gallu sefydlu ystafelloedd os rhoddir rhybudd priodol. Bydd angen iddi gwblhau cynlluniau ystafelloedd erbyn 3pm ar ddiwrnod unrhyw gyfarfodydd sydd wedi'u trefnu.

8. Mae porteriaid ar y safle rhwng 07.00 a 15.30 o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 07.00 a 15.00 ar ddydd Gwener. Trosglwyddir yr adeilad i’r adran Diogelwch am 16.00. Bydd y Swyddogion Diogelwch yn cefnogi unrhyw ofynion brys y cyfarfod lle gallant a phan fydd dau Swyddog Diogelwch ar y safle.

9. Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn darparu hyfforddiant cychwynnol i'r cynrychiolwyr allweddol hynny o grwpiau gwleidyddol a fydd yn hwyluso eu cyfarfodydd hybrid. Bydd hyn yn cynnwys:

   a. cysylltu'r offer hybrid yn barod i'w ddefnyddio,
   b. mewngofnodi i'r ddyfais hybrid berthnasol,
   c. cychwyn a hwyluso cyfarfod hybrid gyda chydweithwyr yn eu grŵp gwleidyddol.
   d. dod â chyfarfod i ben a
   e. diffodd yr offer hybrid

10. Ni fydd cymorth gan y Gwasanaethau Democrataidd na chymorth TG Technegol ar gael ar gyfer cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol. Dylid rhoi gwybod am unrhyw ddiffygion a nodir wrth ddefnyddio'r offer hybrid cyn gynted â phosibl i:

   a. Ddesg Gymorth yr Adran TGCh;
   b. Yr Adran Rheoli Cyfleusterau (RhC); a’r
   c. Gweinyddwr archebu ystafelloedd

11. Bydd Diffygion TGCh wedi'u cofnodi y tu allan i oriau Cymorth TGCh safonol (8am i 5pm) yn cael sylw y diwrnod gwaith nesaf fel sy’n briodol.

Cyfrifoldebau’r Aelod Arweiniol

12. Dylai'r Aelod Arweiniol sicrhau bod rhestr bresenoldeb yn cael ei gwneud ar gyfer y rheiny sy’n mynychu wyneb yn wyneb.

13. Mae’r arweiniad presennol yng Nghynllun Gweithredu Tân Neuadd y Sir 10.PS.050 yn dweud bod staff unigol/aelodau etholedig yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn gadael yr adeilad.

14. Os bydd angen gadael yr adeilad, dylai’r Aelod Arweiniol roi gwybod i’r Swyddog ar Ddyletswydd am unrhyw bobl sy’n weddill yn yr adeilad neu sydd ar goll. Dylai staff ac ymwelwyr aros yn eu man ymgynnull – Bae C, Maes Parcio’r Ymwelwyr a llwybrau ar bwys Doc Dwyreiniol Bute nes cael cyfarwyddyd i ddychwelyd i'r adeilad gan staff RhC neu'r Gwasanaeth Tân.

Adolygu

15. Caiff y protocol hwn ei adolygu, yn ôl yr angen, gan Bwyllgor Safonau a Moeseg y Cyngor, mewn ymgynghoriad â’r holl Chwipiau Grwpiau Plaid a gwasanaethau perthnasol.

16. Gellir gwneud mân ddiwygiadau i'r Protocol hwn gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg a Chwipiau Grwpiau Plaid, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol.

17. Bydd angen i unrhyw newidiadau sylweddol i'r protocol hwn gael eu cytuno gan y Pwyllgor Safonau a Moeseg a'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn a'u cyhoeddi a'u diweddaru yng Nghyfansoddiad y Cyngor.